# Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) (Diwygio) 2020

Paratowyd y nodyn hwn ar gyfer Aelodau'r Cynulliad yn dilyn penderfyniadau'r Pwyllgor Busnes ar 27 Mawrth 2020 a 3 Ebrill 2020 **ynghylch delio, dros dro, ag offerynnau statudol** a osodwyd gerbron y Cynulliad.

## Crynodeb

Gwneir y Gorchymyn hwn gan Weinidogion Cymru yn unol ag adrannau 122(1) a 124 o Ddeddf Addysg 2002. Mae'n diwygio erthygl 1(3) o Orchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2019 (**Gorchymyn 2019**) i nodi ym mha le y cyhoeddir Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2019 (**y Ddogfen**) a chanllawiau ar gyflog ac amodau athrawon ysgol.

Mae'r diwygiad a wneir gan y Gorchymyn hwn yn mynd i'r afael â phwynt technegol a godwyd gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn ystod ei waith craffu ar Orchymyn 2019. Yn ei adroddiad ar Orchymyn 2019, nododd y Pwyllgor y dylai Gorchymyn 2019 fod wedi cynnwys darpariaeth ynghylch cyhoeddi'r Ddogfen yn lle cyfeirio at y cyhoeddiad hwnnw trwy droednodyn i Orchymyn 2019, a hynny er mwyn cydymffurfio â gofynion adran 124(3)(a) o Ddeddf Addysg 2002

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Pwyntiau Ychwanwegol i Nodi

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau ychwanegol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn.

**Gwasanaethau Cyfreithiol**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**7 Ebrill 2020**